# EGLWYS ST GWYDDELAN

Mae Eglwys Sant Gwyddelan yn rhan o Ardal Weinidogaeth Bro Gwydyr yr Eglwys yng Nghymru sy'n cynnwys Betws-y-Coed, Dolgarrog, Trefriw, Penmachno a Llanrhychwyn. Caiff gwasanaethau dwyieithog rheolaidd eu cynnal yn Nolwyddelan ar y dydd Sul cyntaf a'r trydydd o'r mis, gan amlaf am 9:30yb, mae croeso i bawb ddod draw.
Mae manylion llawn yr holl wasanaethau yn yr Ardal Weinidogaeth ar wefan Bro Gwydyr - https://brogwydyr.cymru/ lle gallwch weld y newyddlen digwyddiadau wythnosol (neu sganiwch y cod QR).

Mae modd trefnu gwasanaethau ar gyfer priodasau, angladdau, bedyddiadau ac achlysuron eraill, cysylltwch â swyddfa'r ardal weinidogaeth . . .
admin@brogwydyr.cymru
Neu am ofal bugeiliol, cysylltwch gyda, Stuart . . .
Ficer@BroGwydyr.Cymru Tel. 01690 710313

---

## 'DOLI YN EI BLODAU'

### Dathlu ei ben-blwydd yn 20 oed

Hoffech chi fod yn rhan o'n criw cyfeillgar o arddwyr, gan helpu i gadw Dolwyddelan yn edrych yn lliwgar ac yn falch ohono'i hun?
Rydym yn cyfarfod o bryd i'w gilydd yn ystod y flwyddyn o gwmpas y pentref er mwyn plannu, tacluso ardaloedd blêr a chadw'r prif ardaloedd yn hardd ac yn glod i'r pentref a hyn oll wrth fwynhau'r awyr iach a chwmni ffrindiau.
Mae'r llefydd rydym yn gofalu amdanynt yn cynnwys – platfform yr orsaf, maes parcio'r orsaf, cilfan Pont Arenig, mynwent Bryn y Bedd a'r nifer o ddalwyr blodau sy'n harddu ein pentref drwy gydol y flwyddyn. Mae gennym rota o ddau berson y mis i dacluso, chwynnu a brwsio gardd y Senotaff. Rydym yn croesawu aelodau newydd bob tro.

Gweithgorau sydd wedi'u cynllunio (dim mwy na dwy awr fel arfer) ...
**Dydd Sadwrn 29ain** o Fawrth @10.30 –

Platfform yr orsaf drenau, y maes parcio a'r gerddi.
(Os hoffai unrhyw un yr ydych yn ei adnabod gymryd drosodd darn o dir ar yr ymyl, rhowch wybod inni.)

Gweithgor plannu i'w drefnu ym Mryn y Bedd yn ddiweddarach ym mis **Mai.**

**Dydd Sadwrn 3ydd o Fai** 11.00yb –

Digwyddiad codi arian ym maes parcio'r orsaf os bydd hi'n sych neu yn y Pafiliwn os bydd hi'n wlyb.

Angie